# WILLIAMES, RICE PRYCE BUCKLEY (1802 - 1871), swyddog yn y Board of Control, Llundain, a phrif gychwynnydd The Cambrian Quarterly Magazine

**Enw:** Rice Pryce Buckley Williames
**Dyddiad geni:** 1802
**Dyddiad marw:** 1871
**Priod:** Anna Frances Williames (née Jones)
**Rhiant:** Catherine Williames (née Pryce)
**Rhiant:** John Buckley Williames
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** swyddog yn y Board of Control, Llundain, a phrif gychwynnydd The Cambrian Quarterly Magazine
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd 1802, mab hynaf John Buckley Williames, Pennant, Aberriw, Sir Drefaldwyn (siryf sir Drefaldwyn, 1820), a Catherine, merch ac aeres Rice Pryce, Glyncogan. Cafodd ei addysg yn ysgol Amwythig. Trwy ddylanwad Charles W. Williams Wynn (gweler Williams Wynn, Wynnstay) cafodd swydd yn y Board of Control, Llundain, a oedd y pryd hwnnw yn gofalu am yr India, a daliodd hi am rai blynyddoedd cyn ymddeol ar bensiwn. Yn weddol gynnar wedi iddo fynd i Lundain bu'n brif gychwynnydd *The Cambrian Quarterly Magazine and Celtic Repertory*, cylchgrawn gwerthfawr a diddorol y cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf ohono ym mis Ionawr 1829 ac a barhaodd hyd 1833; bu Williames yn ei olygu am gyfnod - sylwer fod y gyfrol gyntaf wedi ei chyflwyno i'r arglwydd Ashley, 'one of the Commissioners for the Affairs of India.' Bu'n flaenllaw hefyd gyda llu gwirfoddolwyr milwrol Sir Drefaldwyn - yn gornet yn 1819 ac yn lifftenant yn y corff newydd, yr Yeomanry Cavalry, a ffurfiwyd yn 1831, a dyfod yn ddiweddarach yn major. Priododd, 1854, ag Anna Frances Parslow, merch hynaf Humphrey Rowland Jones, Garthmyl, Sir Drefaldwyn; bu unig blentyn y briodas, merch, farw o flaen ei thad. Bu farw 23 Mawrth 1871 a chladdwyd ef yn eglwys blwyf y Betws.

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau


R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734261


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu